Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Squirrel's Nest – Ychwanegu 3ydd Tŷ Pen Coeden



**Beth oedd nodau'r prosiect?**

Creu Tŷ Pen Coeden moethus fyddai'n cynnig llety clyd i deulu. Roedden i am iddo fod hefyd yn fwy hygyrch, felly cafodd llwybr caled a llydan ei osod a stafell wely ei hadeiladu  lawr llawr.

**Sut cafodd y nodau hyn eu cyflawni?**

Gwnaethon ni gynllunio pob cam yn ofalus a gweithio'n agos gyda'n pensaer a'r adeiladwyr i sicrhau bod pob rhan wedi'i gwneud at safon uchel. Dewiswyd cegin ddeniadol gyda mainc o gwarts, bath pres, cawod 'camu-i-mewn' modern a matresi moethus i sicrhau safon 5 seren. Roeddem am i'r 'profiad' fod y peth canolog felly crëwyd ardal gyda hamog ar draed i bobl allu ymlacio a darllen yng ngolwg y coed.

Mae gennym hefyd y cynnig detholiad o lyfrau iechyd a lles, cornel ddarllen, blancedi clyd, sebonau Cymreig, gwn wisgo fflwffog, a bara brith cartref fel rhan o'r hamper croeso.

Teimlwn ein bod yn darparu llety 5 seren i bobl sydd am gilio rhag y byd am ychydig.

**Pwy oedd yn rhan ohono?**

Cafodd y gwaith adeiladu ei reoli gan Laura a John gan ddefnyddio busnesau lleol i helpu i adeiladu a chaboli'r tŷ.
Sut cafodd y prosiect ei ariannu? Ein harian ein hunain, a grant MSBF.

**Ble aethoch chi am help a chyngor?**

O gofio mai hwn oedd ein trydydd prosiect adeiladu, roedden ni'n teimlo lawer fwy hyderus gan ein bod yn dilyn proses debyg i'r un ddilynon ni'r tro diwethaf.

Gwnaethon ni ddim mynd ar ofyn asiantaethau allanol am gyngor, dim ond gweithio'n glos gyda Chyngor Powys ar reoliadau adeiladu, a chyda'n pensaer wrth adeiladu'r platfform er enghraifft.

**Beth yw'ch camp fwyaf hyd yma?**

Gwnaethon ni weithio â Dunelm, profiad cyffrous iawn. Trefnon nhw gystadleuaeth ar eu cyfrif Instagram, oedd â 870k o ddilynwyr ar y pryd. Canlyniad hynny oedd ychwanegu 54k at ein Instagram ni mewn cwta 4 diwrnod.

Cawsom filoedd o bunnau o archebion dros yr wythnos honno – a oedd yn wych. Mae'r dilyniant mawr yn golygu ein bod yn cael nifer enfawr o archebion uniongyrchol ar gyfer

pob un o'r Tai Pen Coed. Yna daeth Dunelm allan i Dŷ Pen Coeden y Tywysog Llywelyn yn ddiweddarach yn y flwyddyn i dynnu lluniau ar gyfer eu hymgyrch 'Sleeptember'.

Mae pob tŷ wedi bod yn llawn gennym ers i ni agor ym mis Mawrth 2021. Mae wastad galw mawr, felly pan fydd rhywun yn canslo, mae gennym westeion newydd i gymryd eu lle mewn munudau. Rydym wedi cael ymateb ardderchog, gyda gwesteion yn aml yn ein hargymell i ffrindiau a theulu.

**A'r her fwyaf?**

**COVID-19!** Y nod oedd agor dros Nadolig 2020 ond bu'n rhaid cau oherwydd y clo mawr.  Bu'r Tai Pen Coed yn wag am 3 mis a mwy.  Roedd y pandemig yn ergyd aruthrol. Bu'n rhaid i ni ad-dalu gwerth miloedd o bunnau o archebion, symud llawer o archebion i ddyddiad arall, oedd yn golygu i bob pwrpas eu bod yn aros 'am ddim'.  Er i ni gael grant, roedd yn ddim o'i gymharu â beth gollon ni.

**Unrhyw gynghorion i'r rhai sy am sefydlu prosiect tebyg?**

Ceisiwch feddwl mewn ffordd wahanol. Beth fydd yn eich gwneud chi'n wahanol i bawb arall? Sut allwch chi fod yn siŵr y byddwch yn dal i redeg safle glampio mewn 10 mlynedd? Gwariwch fwy i ennill mwy!

**Beth sydd nesaf ar gyfer eich prosiect?**

Rydyn ni wedi cyflwyno cais cynllunio i'r cyngor i godi pedwerydd Tŷ.  Roedd hi'n anodd dewis ble yn union am ein bod am i'n gwesteion gael digonedd o breifatrwydd.  Ond rydyn ni wedi cael hyd i le hyfryd mewn coedlan wrth nant.  Ardal lonydd gyda digonedd o natur.

